FFURFLEN MANYLION POLISI

POLICY IDENTIFICATION FORM /FRONT SHEET

Teitl y Ddogfen:	*Polisi Iaith Gymraeg*
Y Math o Ddogfen:	*Polisi*
Perchennog y Ddogfen:	*Angharad Roberts*
Uwch Gyfarwyddwr â Chyfrifoldeb:	*James Nelson*
Pwrpas:	
Cylch Adolygu:	*2 flynedd*

Sut mae'n cysylltu â'r Cynllun Strategol (dileer y rhai nad ydynt yn berthnasol):	
Ein lle yn y gymuned / Cyfleoedd i ddysgwyr a llwyddiant dysgwyr / Defnyddio sgiliau a gwybodaeth i ysgogi'r economi / Ein rôl mewn Cymru gynaliadwy	
Sut mae'n cysylltu â'r Gofrestr Risg (dileer y rhai nad ydynt yn berthnasol):	
STR0010 Anallu i gyflawni Safonau'r Gymraeg a disgwyliadau'r cwricwlwm ***STR0016 Effaith datblygiadau strategol megis MEDR ar incwm Addysg Uwch*** ***STR0017 Diffyg amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithio'n negyddol ar ganfyddiad dysgwyr, gweithwyr a rhanddeiliaid o GLlM***	
Sut mae'n cysylltu â'n gwerthoedd:	***Cydraddoldeb / Ymddiriedaeth / Tegwch / Parch / Uchelgais***

Rhestr Wirio'r Broses Gymeradwyo - dileer os nad yw'n berthnasol (cyfrifoldeb y Perchennog):	***Dyddiad:***
• *Asesiadau Effaith Cychwynnol*	***07/10/25***
• *Y drafft cyntaf wedi'i uwchlwytho i Borth y Grŵp ar gyfer ymgynghoriad cychwynnol â staff (ELD)*	***13/10/25***
• *Y drafft cyntaf wedi'i anfon i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol ar gyfer pythefnos o ymgynghoriad cychwynnol (AAH)*	***13/10/25***

• *Yr Asesiadau Effaith wedi'u cwblhau*	
• *Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Tîm Strategol*	***20/10/25***
• *Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol (os yw hyn yn berthnasol)*	***05/11/25***
• *Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Diogelwch, Iechyd ac Amgylchedd (SHE) (os yw hyn yn berthnasol)*	***n/a***
• *Cymeradwyaeth yr undebau yn y Cydbwyllgor Ymgynghorol / SHE*	***05/11/25***
• *Y Polisi wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd**	***02/12/25***
• *Y Polisi wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd*	***11/12/25***
• *Cyfieithu'r Polisi a'i uwchlwytho i Borth y Grŵp*	***09/03/26***

1. Cyflwyniad

1.1. Mae Grŵp Llandrillo Menai (y Grŵp) wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog i ddysgwyr a'r cyhoedd. Yn benodol, mae'r Grŵp yn cydnabod pwysigrwydd datblygiadau uchelgeisiol a fydd yn meithrin amgylchedd a fydd yn hyrwyddo defnydd a thwf y Gymraeg ymhlith dysgwyr, staff a rhanddeiliaid allweddol.

1.2. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r camau y bydd y Grŵp yn eu cymryd er mwyn:

1.2.1. sicrhau bod y Grŵp yn cydymffurfio â'r dyletswyddau statudol sy'n cael eu gosod arno drwy Safonau'r Gymraeg

1.2.2. sicrhau bod y Gymraeg yn parhau'n ganolog i fywyd a gwaith y Grŵp

1.2.3. sicrhau bod y Grŵp yn perchnogi cynllun gweithredu addysg bellach a phrentisiaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

1.2.4. sicrhau bod y Grŵp yn cyfrannu'n rhagweithiol tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

1.3. I gyd-fynd â'r polisi hwn mae'r Grŵp wedi cynhyrchu Gweithdrefn y Gymraeg a Dwyieithrwydd er mwyn rhoi arweiniad manwl i staff y Grŵp ar ofynion Safonau'r Gymraeg a'r hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt yn eu gwaith beunyddiol.

2. Hyd a Lled y Polisi

2.1. Mae'r polisi'n cyfeirio at waith y Grŵp gyda dysgwyr, staff, unigolion a chyrff sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am sicrhau bod ein Polisi Iaith Gymraeg a'r canllawiau atodol yn cael eu gweithredu.

2.2. Mae'r Grŵp yn mabwysiadu'r egwyddorion sy'n sail i waith Comisiynydd y Gymraeg, sef:

2.2.1. Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

2.2.2. Dylai unigolion yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

2.3. Mae hyn yn golygu y bydd Grŵp Llandrillo Menai yn sicrhau:

2.3.1. Bod gennym gynllun gweithredu dwyieithrwydd (ar gael ar gais) sy'n cynnwys targedau sefydliadol i gynnig darpariaeth dysgu ac asesu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog sy'n adlewyrchu anghenion y ddarpariaeth dan sylw.

2.3.2. Y bydd y Grŵp yn annog ac yn cefnogi dysgwyr, staff ac eraill i ddefnyddio'r Gymraeg.

2.3.3. Y bydd cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a gwasanaethau Cymraeg y Grŵp yn cael eu hyrwyddo'n rhagweithiol.

2.3.4. Pan fydd hynny'n bosibl, y bydd ein dysgwyr yn cael cyfleoedd i astudio eu meysydd pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn derbyn cefnogaeth i wneud hynny.

2.3.5. Y bydd ein gwasanaethau o'r un ansawdd yn y Gymraeg a'r Saesneg drwy fod yr un mor weledol â'i gilydd, yr un mor hawdd eu defnyddio a'r un mor effeithiol.

2.3.6. Y bydd y Grŵp yn cofnodi dewis iaith (Cymraeg neu Saesneg) unigolion ac yn darparu gwasanaethau yn unol â'r dewis iaith hwnnw.

2.3.7. Y bydd ein polisïau a'n systemau recriwtio staff yn sicrhau bod capasiti dwyieithog y Grŵp yn cael ei gynnal ar draws ystod a graddfeydd swyddi.

2.3.8. Y bydd ein staff yn cael eu hannog ac yn cael cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, gyda'r nod o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws colegau'r Grŵp.

2.3.9. Y bydd ein polisïau, ein cynlluniau a'n prosiectau yn ystyried yn llawn sut i roi lle canolog a naturiol i'r Gymraeg heb danseilio statws y Gymraeg na'r defnydd o'r iaith.

2.3.10. Y byddwn yn cofnodi penderfyniadau, prosesau a chwynion sy'n berthnasol i'r Gymraeg.

3. Datblygu Darpariaeth Ddwyieithog

3.1. I gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, bydd gan bob dysgwr:

3.1.1. Hawl i dderbyn llythyrau yn y Gymraeg

3.1.2. Hawl i wneud cais am gymorth ariannol yn y Gymraeg

3.1.3. Hawl i brosbectws Cymraeg

3.1.4. Hawl i diwtor personol sy'n siarad Cymraeg

3.1.5. Hawl i gyfarfodydd ffurfiol yn y Gymraeg

3.1.6. Hawl i gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn y Gymraeg

3.1.7. Hawl i gymorth cwnsela ac iechyd meddwl yn y Gymraeg

3.2. Bydd y Grŵp yn hysbysu dysgwyr am yr hawliau uchod.

3.3. Mae'r Grŵp yn ymrwymo i fod yn rhagweithiol wrth annog dysgwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg. Sicrhawn fod dysgwyr yn ymwybodol o'r cyfleoedd i astudio yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog a'r cyfleoedd ar gyfer dilyniant yn y Gymraeg. Cynigiwn gyfleoedd amrywiol , yn y rhaglen ddysgu ac yn allgyrsiol, i ddatblygu ymwybyddiaeth iaith a dealltwriaeth o fanteision sgiliau Cymraeg.

3.4. Bydd y Grŵp yn cynllunio i ehangu'r ddarpariaeth ddwyieithog ar draws Addysg Bellach, Addysg Uwch a Dysgu Seiliedig ar Waith ac i weithio mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC) i wireddu ei weledigaeth ar gyfer ein holl ddysgwyr.

3.5. Bydd y Grŵp yn cefnogi cynllun llysgenhadon y CCC ac yn sicrhau cynrychiolaeth gan ddysgwyr ar y Panel Iaith.

3.6. Fel rhan o'r drefn sicrhau ansawdd bydd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yn elfen y disgwylir i bob maes rhaglen roi sylw iddi yn y ffurflenni arolygu blynyddol y mae gofyn iddynt eu llenwi ar gyfer pob cwrs.

4. Darparu Gwasanaethau Cymraeg a Dwyieithog i Ddysgwyr a'r Cyhoedd

4.1. Mae'r adran hon yn ymwneud â'r modd y bydd y Grŵp yn cydymffurfio â'r Safonau Darparu Gwasanaethau ac yn sicrhau ei fod yn cyfathrebu'n effeithiol bob amser â dysgwyr a'r cyhoedd yn ddwyieithog.

4.2. Cyfathrebu â'r Grŵp

4.2.1. Mae croeso i ddysgwyr a'r cyhoedd gyfathrebu â'r Grŵp yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis.

4.2.2. Mae'r dewis i gyfathrebu â'r Grŵp yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn cynnwys y dulliau cyfathrebu canlynol:

- Gohebiaeth ysgrifenedig
- Dros y ffôn
- Mewn cyfarfodydd, cyflwyniadau a seminarau
- Cyfweliadau

4.2.3. Bydd unigolion sy'n gohebu â'r Grŵp yn Gymraeg yn cael ateb yn y Gymraeg, ac ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg.

4.3. Cyhoeddiadau, Cyhoeddusrwydd, Brandio a Hunaniaeth Gyhoeddus

4.3.1. Bydd hunaniaeth gorfforaethol y Grŵp a'i golegau yn cael ei ddangos ym mhobman yn y Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys enw'r Grŵp yn y logo, ar benawdau llythyrau, ac ar slipiau cyfarch, cardiau busnes, gwahoddiadau ac eitemau tebyg. Bydd

gwybodaeth ac enw'r Grŵp yn dilyn yr un patrwm bob amser (e.e. ar arwyddion, cerbydau, adeiladau ac mewn arddangosfeydd neu gyhoeddiadau).

4.3.2. Bydd cyhoeddiadau, ffurflenni, gwybodaeth gyhoeddus (yn cynnwys arwyddion dros dro), deunyddiau sy'n cael eu harddangos mewn cyfarfodydd ac ar wefannau, apiau, cyfryngau cymdeithasol a dogfennau'r Grŵp) a anelir at y dysgwyr a'r cyhoedd yn ddwyieithog.

4.3.3. Bydd Datganiadau i'r Wasg yng Nghymru'n ddwyieithog.

4.3.4. Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r deunyddiau uchod ar gael yr un pryd. Nid oes rhaid i'r fersiynau Cymraeg a Saesneg fod yn union yr un fath. Y nod yw eu bod yn bodloni gofynion y gynulleidfa darged. Os yw tesun Cymraeg a Saesneg yn cael eu cynnwys yn yr un cyhoeddiad / yn cael eu harddangos yr un pryd, bydd y fersiwn Cymraeg uwch ben y fersiwn Saesneg neu bydd y fersiwn Cymraeg ar y chwith.

4.3.5. Pan gynhyrchir fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r deunyddiau uchod fel dogfennau ar wahân bydd y fersiwn Saesneg yn nodi'n glir bod y cyhoeddiad hefyd ar gael yn y Gymraeg.

5. Y Gymraeg a Staff

Mae'r adran hon yn ymdrin â'r modd y bydd y Grŵp yn cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu ac yn mynd y tu hwnt i hynny er mwyn sicrhau bod gweinyddiaeth fewnol y Grŵp yn parhau i fod yn ddwyieithog.

5.1. Bwrdd y Gorfforaeth

5.1.1. Bydd y Bwrdd yn gyfrifol am drafod a chymeradwyo diwygiadau i'r Polisi a'r Cynllun Gweithredu Blynyddol yn rheolaidd. Yn fewnol, mae ganddo'r awdurdod i sicrhau bod y Safonau'n cael eu gweithredu'n effeithiol, ac yn allanol mae wedi ymrwymo i hyrwyddo'r arferion gorau.

5.2. Staffio a Recriwtio

5.2.1. Bydd Grŵp Llandrillo Menai'n gweithredu Polisi Recriwtio sy'n amlinellu ymrwymiad y Grŵp i ddatblygu'r gweithlu dwyieithog.

5.2.2. Byddwn yn adolygu ac yn asesu sgiliau iaith staff ac yn adrodd ar y canfyddiadau'n flynyddol. Bydd hyn yn helpu i gyfoethogi ein Cynllun Datblygu Staff.

5.3. Cyflogi, Hyfforddi a Datblygu Staff

5.3.1. Bydd aelodau staff newydd yn cael eu cyfeirio at gopïau o'r gofynion cydymffurfio â'r Polisi a Safonau'r Gymraeg ar Borth y Grŵp.

5.3.2. Bydd cyfleoedd i staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg ddilyn cyrsiau iaith proffesiynol yn rhad ac am ddim.

5.4. Cyfieithu

5.4.1. Mae'r Grŵp yn cyflogi tîm o gyfieithwyr er mwyn cynnig gwasanaeth cyfieithu a phrawf ddarllen i holl staff y Grŵp.

6. Llunio Polisïau

6.1. Polisïau a Chynlluniau Newydd

6.1.1. Byddwn yn sicrhau bod polisïau a chynlluniau newydd yn hyrwyddo ac yn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb lle bynnag y bo'n berthnasol.

6.1.2. Pan fyddwn yn gwneud penderfyniad polisi, byddwn yn gwneud ymdrech gydwybodol i ystyried yr effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar:

- y cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, a'r
- angen i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Gall yr effeithiau hyn fod yn bositif, yn niwtral neu'n niweidiol.

6.1.3 Gall dogfennau ymgynghori ac asesiadau effaith yn ymwneud â phenderfyniadau polisi ystyried:

- nifer y siaradwyr Cymraeg (mewn ardal, sector neu grŵp penodol)
- defnydd o wasanaethau Cymraeg
- defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg
- is-adeiledd economaidd a diwylliannol cymunedau Cymraeg
- cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg
- unrhyw effaith berthnasol arall ar y Gymraeg

6.2. Tendrau

6.2.1. Bydd y Grŵp yn croesawu ceisiadau tendr yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn gweinyddu'r broses yn ôl dewis iaith yr ymgeisydd. Bydd y Grŵp yn cyhoeddi gwahoddiad i dendro am gontract yn y Gymraeg os yw pwnc y gwahoddiad i dendro yn awgrymu y dylai gael ei gyhoeddi yn y Gymraeg neu os yw'r gynulleidfa / disgwyliadau'n awgrymu y dylai gael ei gyhoeddi yn y Gymraeg.

6.3. Contractau

6.3.1. Pan fydd y Grŵp yn cwblhau contractau ffurfiol â thrydydd partïon sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau, bydd yn sicrhau bod telerau contractau o'r fath yn gyson â gofynion y Polisi a Safonau'r Gymraeg. Ar ben hynny, byddwn yn argymell bod pob parti yn cyfeirio at y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

6.4. Dyfarnu Grantiau

6.4.1. Wrth ddyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol bydd y Grŵp yn ystyried effaith y dyfarniad ar y Gymraeg (gweler atodiad A am ganllawiau pellach ar ddyfarnu grantiau).

7. Cyfrifoldebau, Monitro ac Adrodd

7.1. Mae rhoi'r Polisi Iaith Gymraeg, Gweithdrefn y Gymraeg a dwyieithrwydd y Grŵp a Safonau'r Gymraeg ar waith yn gyfrifoldeb i bob aelod o staff Grŵp Llandrillo Menai. Y Cyfarwyddwr Datblygu Dwyieithrwydd, Adnoddau Dysgu a Sgiliau, a Rheolwr Sgiliaith, Datblygu Dwyieithrwydd a Chydraddoldeb sy'n gyfrifol am adolygu'r polisi.

7.2. Y Panel Iaith sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiad â'r polisi gan gynnwys:

7.2.1. gosod targedau ar gyfer datblygu cwricwlwm dwyieithog y Grŵp, yn cynnwys ansawdd ac amrywiaeth y ddarpariaeth
7.2.2. monitro cynnydd y sefydliad yn erbyn y cynllun datblygu dwyieithrwydd
7.2.3. monitro cydymffurfiaeth holl adrannau'r Grŵp â Safonau'r Gymraeg
7.2.4. sicrhau cynrychiolaeth o bob rhan o'r Grŵp
7.2.5. cynnal cyfarfodydd bob hanner tymor a chyflwyno argymhellion i'r Tîm Strategol

7.3. Cynhyrchir adroddiad blynyddol ar sut mae'r Grŵp yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

7.4. Mae'r adran Datblygu Dwyieithrwydd yn gwneud gwaith monitro mewnol i weld sut mae'r Grŵp yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddulliau siopwr cudd unwaith y flwyddyn.

8. Polisïau a Dogfennau Perthnasol

8.1. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
8.2. Yr Hysbysiad Cydymffurfio y mae'r Grŵp wedi'i dderbyn
8.3. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
8.4. Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg

Atodiad A

Dyfarnu Grantiau

Pwrpas yr atodiad hwn yw sicrhau bod unrhyw benderfyniad ynghylch dyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol yn ystyried Safonau'r Gymraeg ac unrhyw faterion/effeithiau'r penderfyniad hwnnw ar y defnydd o'r Gymraeg.

Beth yw grant neu gymorth ariannol?

Mae'r safon yn berthnasol i bob penderfyniad a wneir ynghylch dyfarnu grantiau. Mae hyn hefyd yn wir am benderfyniadau grant a wneir ac a weinyddir ar ran sefydliadau eraill.

Mae taliadau a elwir yn 'grantiau' ac unrhyw drosglwyddiad parhaol arall o arian i berson nad oes angen ei ad-dalu na'i ddychwelyd yn ddarostyngedig i'r safon hon. Mae swm yr arian yn amherthnasol – mae'r safon yn cwmpasu grantiau bach a mawr ac yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)
- Bwrsari Dilyniant Uniongyrchol Grŵp Llandrillo Menai
- Bwrsariaeth Iaith Gymraeg (AU)
- Bwrsariaeth Ardal Cymunedau'n Gyntaf neu MALlC
- Plentyn sy'n Derbyn Gofal
- Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLlC)
- Cronfa Cymorth i Ddysgwyr (LSF)
- Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Y Gymraeg yn y broses ymgeisio

Mae'r canlynol yn berthnasol i bob grant neu gymorth ariannol a ddyfernir gan y Grŵp:

- Bydd pob dogfen a gyhoeddir mewn perthynas â'r grant neu gymorth ariannol ar gael yn y Gymraeg
- Gwahoddir unigolion i wneud cais yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ac ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a gyflwynir yn Saesneg.
- Bydd dewis iaith yr unigolion yn cael ei barchu drwy gydol y broses ymgeisio

Effaith y broses grantiau ar y Gymraeg

Trwy gydol y broses ymgeisio am grant bydd dysgwyr yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ac ni fydd ceisiadau a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a dderbynnir yn Saesneg. Pan fyddwn yn gosod amod ar grant byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn yr amodau hynny yn y Gymraeg. Os bydd angen i ni ofyn i ddysgwyr am wybodaeth ychwanegol byddant yn gallu cyflwyno'r wybodaeth yn y Gymraeg.

Bydd ein proses dyfarnu grantiau yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg ac yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (at sylw'r Panel Iaith)			
Dyddiad:			
Teitl y Polisi / y weithdrefn / y broses:	**Polisi Iaith Gymraeg**		
Unigolion yn ymwneud â'r Asesiad Effaith:			
Ystyriaethau	**Ymateb**	**Anghenion tystiolaeth pellach**	**Canlyniad**
Pa effeithiau **cadarnhaol,** os o gwbl, a gaiff penderfyniadau'r polisi ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?	Mae'r Polisi Iaith Gymraeg yn ei gyfanrwydd yn sicrhau bod y Grŵp yn gweithredu mewn modd sy'n sicrhau bod y cyhoedd, a dysgwyr a staff y Grŵp yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod eu cyfnod yn y coleg. Mae'r polisi yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y Grŵp. Mae hwn yn ddiweddariad sy'n sicrhau bod angen i'r Grŵp wneud ymdrech gydwybodol i ystyried effeithiau cadarnhaol, niwtral a niweidiol wrth wneud penderfyniadau polisi.		
Pa effeithiau **niweidiol**, os o gwbl, a gaiff penderfyniadau'r polisi ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?	Ni ragwelir y bydd effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o ganlyniad i'r polisi hwn. Ni ragwelir y bydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol o ganlyniad i'r polisi hwn.		
A oes digon o **staff sy'n siarad Cymraeg** ar gael i weithredu'r polisi neu'r weithdrefn? Os na, pa gamau a gymerir i sicrhau bod digon o staff ar gael, a phryd?	Mae 36.5% o staff y Grŵp yn gallu'r Gymraeg. Mae'r ganran ar draws cyfarwyddiaethau fel a ganlyn: Y Gwasanaethau 41.59% Academaidd 41.57% Busnes@ 9.86% Coleg Llandrillo		

	Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor Y Gwasanaethau Academaidd 55.17% 30.86%					
A yw'r polisi neu'r weithdrefn yn cydymffurfio â **Pholisi Iaith Gymraeg a hysbysiad cydymffurfio Safonau'r Gymraeg Grŵp Llandrillo Menai**?	Ydi					
Casgliad: Ticiwch un	**Addasu'r Polisi**	☐	**Parhau â'r Polisi a'i brosesu**	✅	**Dileu'r Polisi**	☐
Addasiadau sydd eu hangen i'r polisi i gynyddu effeithiau cadarnhaol a lleihau effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg:						
Dyddiad cwblhau'r gweithredoedd:						
Llofnodwyd:			**Dyddiad:**			

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Dyddiad:

Teitl y Polisi / y Weithdrefn / y Broses: Polisi Iaith Gymraeg

Unigolion yn ymwneud â'r Asesiad Effaith: Angharad Roberts a Siân Pritchard

Ystyriaethau	Ymateb	Anghenion tystiolaeth pellach	Canlyniad
Pa grwpiau gwarchodedig a allai fod dan anfantais oherwydd y polisi / proses?	Mae'r polisi yn anelu at sicrhau tegwch i siaradwyr Cymraeg yn y GrŴp ac i sicrhau bod y Gymraeg yn iaith i'w gweld a'i chlywed. Ni fydd grwpiau gwarchodedig o dan anfantais oherwydd y polisi.		
Pa grwpiau gwarchodedig a allai elwa ar y polisi / proses?	Gall pob grŴp gwarchodedig elwa ar y polisi gan ei fod yn sicrhau mynediad teg a hygyrch at y Gymraeg yn y GrŴp.		
A yw'r polisi'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn meithrin cysylltiadau da?	Ydi. Mae'r polisi'n meithrin cysylltiadau da trwy sicrhau bod y Gymraeg i'w gweld a'i chlywed yn y GrŴp. Mae hyn yn sicrhau parhad i iaith a diwylliant Cymru. Wrth hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, mae'r GrŴp yn ymwybodol o ddiwylliannau a chredoau eraill ac yn ymdrin â hwy mewn ffordd sensitif.		
A allai unrhyw ran o'r broses wahaniaethu'n anghyfreithlon?	Na - bydd gweithredu'r polisi'n sicrhau tegwch i'r Gymraeg yn y GrŴp. Ni ddylai grwpiau gwarchodedig cael eu trin yn llai ffafriol na chael eu gwahaniaethu'n anghyfreithlon oherwydd y polisi.		
A oes unrhyw bolisïau eraill y mae angen eu newid i gefnogi effeithiolrwydd y polisi hwn?	Nac oes		
Casgliad: Ticiwch un	~~**Addasu'r Polisi**~~	**Parhau â'r Polisi a'i brosesu**	~~**Dileu'r Polisi**~~
Rhestrwch os gwelwch yn dda:			

Dyddiad cwblhau gweithredoedd addasu	**[]**	

Llofnodwyd: **Angharad Roberts, Siân Pritchard** **Dyddiad: 07/10/2025**